# Uned 14: Egwyddorion Rheoli Bygythiadau Diogelwch

## Canllawiau cyflwyno

### Mynd i’r afael â’r uned

Bydd yr uned hon yn rhoi cyfle i’r dysgwyr ymchwilio i rolau diogelwch allweddol, y prif fygythiadau diogelwch mae’r Deyrnas Unedig yn eu hwynebu, a’r strategaethau mae’r gwasanaethau amddiffyn yn eu defnyddio i’w rheoli.

Bydd y dysgwyr yn dod i ddeall y bygythiadau sy’n deillio o frawychiaeth a’r defnydd o fesurau gwrth-frawychiaeth gan y gwasanaethau amddiffyn. Ar gyfer Nod dysgu C, bydd rhaid i’r dysgwyr gynhyrchu cynllun ar gyfer ymateb gwasanaethau amddiffyn i fygythiad diogelwch. Mae’n bwysig iawn bod y dysgwyr yn cael eu tywys trwy eu gwaith ymchwil ar gyfer yr uned, a bod cyngor ac arweiniad yn cael eu darparu ar ddiogelu wrth ymchwilio i ran o gynnwys yr uned. Gallai fod yn fuddiol i ganolfannau ddatblygu adnoddau y mae modd eu cynnal ar eu hamgylchedd dysgu rhithwir sy’n cynnwys ystod cytbwys a phriodol o wybodaeth mewn perthynas â brawychiaeth. Mae’n hanfodol bod y dysgwyr yn cael eu cynghori i beidio â chwilio ar y rhyngrwyd yn unig, gan y gallai hynny olygu eu bod yn dod i gysylltiad â golygfeydd neu ddelweddau a allai achosi risg i’r dysgwr.

Gallech chi gyflwyno’r uned hon gan ddefnyddio cyfuniad o theori (i gyflwyno’r dysgwyr i’r topigau a restrir yng nghynnwys yr uned), ymweliadau a siaradwyr gwadd (i alluogi’r dysgwyr i gymhwyso’r cysyniadau damcaniaethol maen nhw wedi’u dysgu).

### Cyflwyno’r nodau dysgu

**Nod dysgu A: Ymchwilio i’r prif fygythiadau diogelwch mae gwasanaethau amddiffyn y Deyrnas Unedig yn eu hwynebu, sut mae’r rhain yn cael eu rheoli ac effaith methiannau diogelwch**

Ar gyfer Nod dysgu A, dylid rhoi cyfle i’r dysgwyr ymchwilio i’r prif fygythiadau diogelwch mae gwasanaethau amddiffyn y Deyrnas Unedig yn eu hwynebu, sut caiff y rhain eu rheoli ac effaith methiannau diogelwch. Mae modd defnyddio trafodaethau dosbarth i ganiatáu i’r dysgwyr ymchwilio ymhellach i gysyniadau bygythiadau diogelwch a strategaethau a luniwyd i reoli bygythiadau diogelwch.

Dylid rhoi cyfle i’r dysgwyr wneud gwaith ymchwil ar effaith methiant i atal bygythiad diogelwch.

**Nod dysgu B: Deall y bygythiadau sy’n deillio o frawychiaeth a defnydd y gwasanaethau amddiffyn o fesurau gwrth-frawychiaeth**

Ar gyfer Nod dysgu B, byddai’n fuddiol defnyddio trafodaethau dosbarth i alluogi’r dysgwyr i archwilio cyd-destun brawychiaeth a’r rhesymau pam mae’n dal yn arwyddocaol fel bygythiad i ddiogelwch. Dylid cyflwyno’r dysgwyr hefyd i fesurau gwrth-frawychiaeth. Rhaid iddynt ddatblygu dealltwriaeth o strategaeth gwrth-frawychiaeth y Deyrnas Unedig a rôl y prif asiantaethau a sefydlwyd i fynd i’r afael â bygythiad brawychiaeth.

Gellid hwyluso cyflwyno Nod dysgu B2 â mewnbwn allanol. Gallai siaradwr gwadd, sy’n gweithio ym maes gwrth-frawychiaeth, ddod i mewn i drafod tactegau, technegau a strategaethau cyfredol a ddefnyddir yn erbyn gwahanol fathau o fygythiad. Dylai’r siaradwr hefyd siarad am y cryfderau a’r heriau sy’n gysylltiedig â phob un o’r strategaethau a’u heffeithiolrwydd.

## Nod dysgu C: Cynllunio ymateb gwasanaethau amddiffyn i fygythiad diogelwch

Ar gyfer Nod dysgu C, rhaid i’r dysgwyr gynllunio ymateb gwasanaeth amddiffyn i fygythiad diogelwch. Rhaid i’r dysgwyr ddatblygu gwybodaeth am y personél sy’n cael eu cyflogi’n benodol gan y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol, gyda diogelwch yn brif ffocws i’w gwaith. Rhaid iddynt hefyd ddeall pwerau gweithiwr gwasanaethau amddiffyn wrth reoli bygythiadau diogelwch. Gallech chi ddefnyddio cyflwyniadau gan y tiwtor i gyflwyno’r theori y tu ôl i ymatebion gwasanaethau amddiffyn i fygythiad diogelwch, a’r tasgau a gyflawnir gan weithwyr gwasanaethau amddiffyn.

Dylid rhoi cyfle i’r dysgwyr archwilio ac ymchwilio i bwerau gwahanol weithwyr gwasanaethau amddiffyn wrth reoli bygythiadau diogelwch.

Gallai’r dysgwyr ddefnyddio cyflwyniadau neu sesiynau chwarae rôl i’w galluogi i ymchwilio a chasglu gwybodaeth ynghylch cynllunio ymateb effeithiol i fygythiad cyn mynd ymlaen i gynllunio’u hymatebion eu hunain.

## Model asesu

<table>
<tr><th>Nod dysgu</th><th>Meysydd cynnwys allweddol</th><th>Dull asesu a argymhellir</th></tr>
<tr><td>A Ymchwilio i’r prif fygythiadau diogelwch mae gwasanaethau amddiffyn y Deyrnas Unedig yn eu hwynebu, sut mae’r rhain yn cael eu rheoli ac effaith methiannau diogelwch</td><td>A1 Mathau o fygythiad diogelwch<br>A2 Effaith methiant i atal bygythiad diogelwch<br>A3 Strategaethau a luniwyd i reoli bygythiadau diogelwch</td><td rowspan="2">Adroddiad dwy ran ar astudiaeth achos neu erthygl sy’n:<br>• gwerthuso bygythiadau diogelwch, effaith methiant, a’r mesurau a’r strategaethau a luniwyd i reoli’r bygythiadau hynny<br>• gwerthuso effeithiolrwydd mesurau gwrth-frawychiaeth gan gyfeirio’n benodol at sut maen nhw’n galluogi’r gwasanaethau amddiffyn ac asiantaethau eraill i wrthweithio brawychiaeth</td></tr>
<tr><td>B Deall y bygythiadau sy’n deillio o frawychiaeth a defnydd y gwasanaethau amddiffyn o fesurau gwrth-frawychiaeth</td><td>B1 Cyd-destunau brawychiaeth a rhesymau am ei arwyddocâd parhaus fel bygythiad i ddiogelwch<br>B2 Mesurau gwrth-frawychiaeth</td></tr>
<tr><td>C Cynllunio ymateb gwasanaethau amddiffyn i fygythiad diogelwch</td><td>C1 Gwaith gweithwyr gwasanaethau amddiffyn<br>C2 Pwerau gweithiwr gwasanaethau amddiffyn wrth reoli bygythiadau diogelwch<br>C3 Cynllunio ymateb effeithiol</td><td>Cynllun ymateb i sefyllfa bygythiad diogelwch benodol sy’n:<br>• adolygu rolau gweithwyr gwasanaethau amddiffyn wrth reoli bygythiadau diogelwch sy’n gwerthuso ffactorau ac ystyriaethau cyn chwilio, a chyfiawnhau sut mae’r ffactorau a’r ystyriaethau hyn yn cyfrannu at chwilio effeithiol<br>• cyflwyno ymateb ar gyfer dau wasanaeth amddiffyn cyferbyniol wrth reoli bygythiad diogelwch</td></tr>
</table>

## Canllawiau asesu

Mae’r asesiad a argymhellir ar gyfer yr uned hon yn cynnwys dau aseiniad. Mae’r aseiniad cyntaf yn canolbwyntio ar Nodau dysgu A a B, a’r ail ar Nod dysgu C.

Ar gyfer yr aseiniad cyntaf, gallech chi ofyn i’r dysgwyr gynhyrchu adroddiad dwy ran ar astudiaeth achos neu erthygl sy’n gwerthuso bygythiadau diogelwch, y mesurau a’r strategaethau a luniwyd i reoli’r bygythiadau hynny, ac effaith methu â’u rheoli. Dylai’r adroddiad werthuso effeithiolrwydd mesurau gwrth-frawychiaeth, gan gyfeirio’n benodol at sut maen nhw’n galluogi’r gwasanaethau amddiffyn ac asiantaethau eraill i wrthweithio brawychiaeth.

Ar gyfer yr ail aseiniad, dylai’r dysgwyr gynhyrchu cynllun ymateb i sefyllfa bygythiad diogelwch benodol. Dylai’r ymateb adolygu’r rolau a gyflawnir gan weithwyr gwasanaethau amddiffyn wrth reoli bygythiadau diogelwch. Dylai werthuso ffactorau ac ystyriaethau y mae’n rhaid eu cadw mewn cof gan weithwyr sy’n ymchwilio i’r bygythiad, a dylent gyfiawnhau sut mae’r ffactorau a’r ystyriaethau hyn yn cyfrannu at ymateb effeithiol i’r bygythiad. Rhaid i’r cynllun ymateb hefyd gyflwyno ymateb ar gyfer dau wasanaeth amddiffyn cyferbyniol wrth reoli bygythiad diogelwch.

 © Pearson Education Limited 2022

## Cychwyn arni

Yma cewch fan cychwyn ar gyfer un dull o gyflwyno'r uned, wedi'i seilio ar y dull asesu a argymhellir yn y fanyleb.

| **Uned 14: Egwyddorion Rheoli Bygythiadau Diogelwch** |
|---|
| **Cyflwyniad**<br>Dylech roi cyfle i'r dysgwyr ymchwilio i'r prif fygythiadau diogelwch mae'r gwasanaethau amddiffyn yn y Deyrnas Unedig yn eu hwynebu ac edrych ar ganlyniadau methiannau diogelwch. Rhaid i'r dysgwyr archwilio'r strategaethau a ddefnyddir i reoli'r bygythiadau hyn, gan edrych ar waith gweithwyr diogelwch allweddol yn y gwasanaethau amddiffyn er mwyn deall beth maen nhw'n ei wneud er mwyn diogelu'r cyhoedd. Dylen nhw ystyried cyd-destunau cyfredol bygythiadau diogelwch, a'r defnydd o fesurau gwrth-frawychiaeth. Yn olaf, bydd angen i'r dysgwyr ymchwilio i ymatebion y gwasanaethau amddiffyn i fygythiadau diogelwch, a chynllunio ymateb gwasanaeth amddiffyn i fygythiad diogelwch. Ar hyd cyfnod cyflwyno'r uned hon, dylid rhoi enghreifftiau i'r myfyrwyr sy'n gyfredol ar adeg yr addysgu. |
| **Nod dysgu A: Ymchwilio i'r prif fygythiadau diogelwch mae gwasanaethau amddiffyn y Deyrnas Unedig yn eu hwynebu, sut mae'r rhain yn cael eu rheoli ac effaith methiannau diogelwch** |
| Amlinellwch natur y topigau a'r math o asesiad y bydd disgwyl i'r dysgwyr ei gwblhau ar gyfer yr uned hon. Asesir yr uned hon â dau aseiniad crynodol. Bydd rhaid i'r dysgwyr ymchwilio i'r prif fygythiadau diogelwch mae gwasanaethau amddiffyn y Deyrnas Unedig yn eu hwynebu, sut caiff y bygythiadau hynny eu rheoli ac effaith methu ag atal bygythiad diogelwch. Rhaid iddynt ddatblygu dealltwriaeth o'r bygythiadau sy'n deillio o frawychiaeth, a'r defnydd o fesurau gwrth-frawychiaeth gan y gwasanaethau amddiffyn.<br>Gallech ddechrau trwy gyflwyno'r dysgwyr i'r mathau o fygythiad diogelwch. Defnyddiwch drafodaeth dosbarth i archwilio'r prif fygythiadau diogelwch a'r risgiau mae gwasanaethau amddiffyn yn y Deyrnas Unedig yn eu hwynebu.<br>Defnyddiwch gyflwyniad dan arweiniad yr athro i roi trosolwg i'r dysgwyr o'r mathau o fygythiadau diogelwch mae'r Deyrnas Unedig yn eu hwynebu, gan ddarparu enghreifftiau diweddar ar eu cyfer. Dylech roi sylw i'r mathau canlynol o fygythiad:<br>• Brawychiaeth (grwpiau, amcanion grwpiau a pham maen nhw'n fygythiad, tactegau)<br>• Arfau dinistr torfol<br>• Seiberofod (actorion gelyniaethus, seiber ysbïo, ymosod ar rwydwaith cyfrifiadurol)<br>• Ysbïo<br>• Ansefydlogrwydd a gwrthdaro dramor<br>• Troseddu difrifol a threfnedig<br>• Bygythiadau a risgiau cyffredinol sy'n effeithio ar y cyhoedd yn y Deyrnas Unedig (troseddau yn erbyn eiddo, troseddau yn erbyn pobl, seiberymosodiadau, twyll)<br>Gallech ofyn i'r dysgwyr wneud gwaith ymchwil unigol ar fath o fygythiad diogelwch. Gallech chi ddyrannu'r rhain neu ganiatáu i'r dysgwyr ddewis eu rhai eu hunain.<br>Dylai'r dysgwyr ymchwilio i'r math o fygythiad a ddewiswyd ganddynt, beth yw'r bygythiad hwnnw, ei nodau/ddiben a thactegau. Gallai'r dysgwyr gynhyrchu cyflwyniad ar sail eu canfyddiadau, y gallant ei rannu gyda'r grŵp. |

Gallech ddefnyddio cyflwyniad dan arweiniad tiwtor i roi gwybodaeth i’r dysgwyr am effaith methu ag atal bygythiad diogelwch. Dylech esbonio effaith methiannau diogelwch ar y gwasanaethau amddiffyn a’r gymdeithas ehangach. Yn ystod y cyflwyniad dylai’r dysgwyr wneud nodiadau o dan y penawdau canlynol: brawychiaeth, colli bywyd, anafiadau i bobl, difrod i eiddo, colled ariannol/economaidd, a cholli hyder y cyhoedd.

Gallech chi ddefnyddio asesiad ffurfiannol i wirio dealltwriaeth y dysgwyr trwy ofyn iddyn nhw gynhyrchu traethawd am effaith methiannau diogelwch ar y gwasanaethau amddiffyn.

Gallech chi ofyn i siaradwr gwadd, sy’n gweithio ym maes gwrth-frawychiaeth, i ddod i mewn a thrafod strategaethau a luniwyd i reoli bygythiadau diogelwch. Dylen nhw fedru esbonio pwrpas a rôl y prif wasanaethau sy’n gyfrifol am ddiogelu a gwarchod y genedl, ei llywodraeth a’i phobl. Gallent hefyd drafod nodweddion y prif strategaethau a ddefnyddir gan y gwasanaeth amddiffyn sydd â gwisg swyddogol er mwyn rheoli bygythiadau diogelwch. Dylai’r siaradwr gwadd fod yn rhywun sy’n gweithio mewn rôl strategol mewn gwasanaeth amddiffyn sydd â gwisg swyddogol, neu sydd â phrofiad diweddar o weithio mewn gwasanaeth amddiffyn mewn rôl strategol. Gallen nhw fod o’r lluoedd arfog, yr heddlu neu’r gwasanaethau diogelwch. Dylai’r dysgwyr gymryd nodiadau yn ystod cyflwyniad y siaradwr gwadd ar y strategaethau a luniwyd i reoli bygythiadau diogelwch.

Gallech chi ddefnyddio trafodaeth dosbarth i gynnal trafodaeth bellach ar y strategaethau a ddefnyddir i reoli bygythiadau diogelwch a rheoli’r amgylchedd ffisegol, megis eiddo, lleoliadau a mannau cyhoeddus.

Rhaid i’r dysgwyr ddatblygu gwybodaeth am y prif asiantaethau a sefydlwyd i reoli bygythiadau diogelwch. Gallen nhw weithio mewn grwpiau bach i ymchwilio i asiantaeth ac yna rannu eu canfyddiadau gyda gweddill y grŵp. Rhaid iddynt ystyried: y lluoedd arfog, yr heddlu, gwasanaethau diogelwch, MI5, Y Gwasanaeth Cuddwybodaeth (SIS/MI6) a GCHQ.

Dylid caniatáu amser i’r dysgwyr lunio nodiadau a pharatoi ar gyfer Aseiniad 1.
(Mae Aseiniad 1 yn cwmpasu Nodau dysgu A a B.)

**Nod dysgu B: Deall y bygythiadau sy’n deillio o frawychiaeth a defnydd y gwasanaethau amddiffyn o fesurau gwrth-frawychiaeth**

Cyn dechrau cyflwyno’r uned hon, dylid rhoi canllawiau i’r dysgwyr ynghylch diogelu eu hunain wrth ymchwilio i ddeunydd ar gyfer y topig hwn.

Gallech chi gyflwyno’r topig hwn trwy arwain trafodaeth dosbarth ar gyd-destunau brawychiaeth a’r rhesymau pam mae’n dal yn arwyddocaol fel bygythiad i ddiogelwch. Dylech helpu’r dysgwyr i ddeall bod ystod o wahanol gyd-destunau ar gyfer brawychiaeth a’r grwpiau sy’n ei gefnogi, ac o’r herwydd, gall brawychiaeth fod yn derm goddrychol, gyda’r diffiniad yn dibynnu ar safbwynt yr unigolyn.

Gofynnwch i’r dysgwyr weithio mewn parau i gynhyrchu taflen ffeithiau gyda gwybodaeth am y ffactorau sy’n gallu effeithio ar achosion brawychwyr a’r lefel gysylltiedig o fygythiad yn erbyn gwlad. Dylen nhw gynnwys gwybodaeth am natur bygythiadau brawychiaeth, newidiadau i fygythiadau diogelwch yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, a’r mathau o fygythiadau diogelwch.

Gallech chi ofyn i siaradwr gwadd ddod i mewn a thrafod eu profiad nhw o wrth-frawychiaeth. Dylen nhw fedru esbonio tactegau, technegau a strategaethau cyfredol ar gyfer delio â gwahanol fathau o fygythiad. Gallen nhw hefyd drafod technegau a strategaethau a ddefnyddir gan y llywodraeth, cyrff milwrol ac asiantaethau gorfodi’r gyfraith i wrthweithio brawychiaeth neu atal tacteg filwrol frawychol. Dylai’r siaradwr gwadd fod yn rhywun sy’n gweithio mewn gwasanaeth diogelwch sydd â gwisg

| |
|---|
| swyddogol ar hyn o bryd neu sydd wedi gweithio yn y lluoedd arfog, yr heddlu neu'r gwasanaethau diogelwch. Dylai'r dysgwyr wneud nodiadau yn ystod cyflwyniad y siaradwr gwadd am y tactegau, y technegau a'r strategaethau a ddefnyddir ar hyn o bryd i ymateb i wahanol fathau o fygythiad yn y maes gwrth-frawychiaeth.<br><br>Gallech arwain trafodaeth yn y dosbarth i ddefnyddio'r wybodaeth a ddysgwyd gan y siaradwr gwadd. Gallech chi ddefnyddio cyflwyniad dan arweiniad tiwtor i gwblhau unrhyw feysydd dysgu y mae angen eu cryfhau. Dylai fod gan y dysgwyr ddealltwriaeth dda o strategaeth gwrth-frawychiaeth y Deyrnas Unedig (CONTEST), ei nod, yr elfennau a'r mentrau a ddefnyddir yn sylfaen ar gyfer 4P CONTEST (*pursue, prevent, protect, prepare*).<br><br>Mewn parau, gallai'r dysgwyr ymchwilio i'r asiantaethau a'r cyrff sy'n gweithio ym maes gwrth-frawychiaeth yn y Deyrnas Unedig. Gofynnwch i'r dysgwyr ymchwilio i wybodaeth am y canlynol a chynhyrchu llyfryn, cyflwyniad neu adroddiad – Canolfan Genedlaethol Seiberddiogelwch (NCSC), Yr Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Troseddu (NCA), Asiantaeth y Ffiniau, asiantaethau amlwladol (e e. Interpol, Europol a Thasglu Gweithredu Gwrth-Frawychiaeth y Cenhedloedd Unedig (CTITF)). Dylech gynnwys unrhyw asiantaethau eraill sydd ar waith ar adeg yr addysgu. Dylai'r dysgwyr gasglu gwybodaeth am y cyrff a'r asiantaethau hyn, eu rolau, eu dibenion a'u harwyddocâd.<br><br>Dylid caniatáu amser i'r dysgwyr ysgrifennu nodiadau a pharatoi ar gyfer Aseiniad 1. (Mae Aseiniad 1 yn cwmpasu Nodau dysgu A a B.) |
| **Nod dysgu C: Cynllunio ymateb gwasanaethau amddiffyn i fygythiad diogelwch** |
| Gallwch gyflwyno'r topig trwy ddefnyddio cyflwyniad dan arweiniad tiwtor i gyflwyno'r theori sy'n sail ar gyfer ymatebion y gwasanaethau amddiffyn i fygythiad diogelwch a'r tasgau a gyflawnir gan weithwyr gwasanaethau amddiffyn. Bydd angen i'r dysgwyr fod yn ymwybodol bod diogelwch yn rhan allweddol o waith gwasanaethau amdiffyn, a bod rhai personél yn cael eu cyflogi'n benodol gyda diogelwch yn brif ffocws i'w gwaith.<br><br>Os bydd modd, byddai'n ddefnyddiol i'r dysgwyr ymweld â chanolfan lluoedd arfog er mwyn dod i ddeall gwaith gweithwyr diogelwch o'r lluoedd arfog (er enghraifft ditectifs yr Heddlu Milwrol Brenhinol, gwarchodwyr personol milwyr yr heddlu, neu Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn). Byddai'n ddefnyddiol i'r dysgwyr arsylwi personél yn cyflawni eu rolau gwahanol, megis chwiliadau, patrolio safleoedd a darparu gwasanaeth rheoli risg.<br><br>Gallai ymweliad â gorsaf heddlu o'r ganolfan, neu ymweliad gan siaradwr gwadd o'r heddlu, fod yn gyfle i'r dysgwyr sicrhau profiad uniongyrchol o swyddog yr heddlu yn cyflawni eu dyletswyddau ym maes diogelwch. Byddai'n ddefnyddiol i'r dysgwyr ddod i ddeall sut mae'r heddlu'n ymchwilio i dramgwyddau a throseddau, yn ymateb i alwadau gan y cyhoedd ac yn rhoi cyngor i'r cyhoedd ar ddiogelwch personol ac atal troseddu.<br><br>Gallech chi arwain trafodaeth dosbarth i alluogi'r dysgwyr i ganfod a thrafod achlysuron lle mae dinasyddion sydd heb wisg swyddogol yn gwneud gwaith arbenigol mewn achosion TG neu seibr-gysylltiedig, ymchwiliadau fforensig, monitro cyfathrebu rhyngrwyd/e-bost ac ymchwiliadau i wasanaethau ariannol. Dylai'r dysgwyr wneud nodiadau yn ystod y drafodaeth.<br><br>Defnyddiwch gyflwyniad dan arweiniad tiwtor i drosglwyddo gwybodaeth am bwerau gweithiwr gwasanaeth amddiffyn wrth reoli bygythiadau diogelwch. Bydd angen i'r dysgwyr wybod sut mae gweithwyr diogelwch yn y gwasanaethau amddiffyn yn gallu cael mynediad i'w pwerau trwy ystod o ddeddfwriaeth allweddol. |

Mewn parau, gofynnwch i’r dysgwyr gynhyrchu cyflwyniad PowerPoint y byddan nhw’n ei gyflwyno i’r dosbarth. Bydd angen iddyn nhw ymchwilio i’r ddeddfwriaeth allweddol a ddefnyddir gan weithwyr diogelwch yn y gwasanaethau amddiffyn wrth reoli bygythiadau diogelwch. Dylai’r dysgwyr gynnwys gwybodaeth am y gwahanol ddeddfwriaeth, eu nodau/pwrpas ac, os oes modd, enghreifftiau o’u cymhwyso. Mae’r ddeddfwriaeth ganlynol yn enghreifftiau y gellid eu cynnwys: Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000, Deddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013, Deddf Gwrth-frawychiaeth a

Diogelwch 2015. Ar gyfer yr heddlu: PACE 1984, Deddf Heddlu 1996, Deddf Brawychiaeth 2000, Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, Deddf yr Heddlu (Gogledd Iwerddon) 2003. Ar gyfer y lluoedd arfog: Deddf Tiroedd Milwrol 1976, Adran 24 o PACE 1984, Deddf Lluoedd Arfog 2006, Adran 3 o Ddeddf Cyfraith Droseddol 1967. Ar gyfer y gwasanaethau diogelwch: Deddf Gwasanaethau Diogelwch 1989. Dylid defnyddio statudau a rheoliadau sy’n gyfredol ar adeg yr addysgu.

Gallech chi ddefnyddio trafodaeth dosbarth i drafod sut mae’r gwasanaethau diogelwch yn cynllunio ymatebion effeithiol i fygythiadau diogelwch. Gallech chi ddilyn hyn â chyflwyniad dan arweiniad tiwtor i ategu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr o sut mae cynllunio ymateb effeithiol i wahanol fathau o fygythiad. Gallai eich cyflwyniad gwmpasu’r gwahanol fathau o ymatebion a gynlluniwyd, nod neu amcan yr ymateb, yr adnoddau o ran personél ac asiantaethau a fu’n ymwneud â’r ymateb a’u rolau a’u cyfrifoldebau, ac ystyriaethau logisteg ac adnoddau. Dylech hefyd roi sylw i sut mae profi effeithiolrwydd y cynllun.

Gallech chi drefnu hefyd bod siaradwr gwadd yn dod i mewn ac yn trafod eu profiad o gynllunio ymatebion effeithiol i fygythiadau diogelwch. Dylen nhw fedru esbonio’u rôl a’u profiad mewn gwasanaeth amddiffyn sydd â gwisg swyddogol, eu rôl ym maes diogelwch, a sut maen nhw wedi ymwneud â chynllunio a phrofi effeithiolrwydd ymatebion i fygythiadau diogelwch. Dylai’r siaradwr gwadd fod yn rhywun sy’n gweithio mewn gwasanaeth amddiffyn sydd â gwisg swyddogol ar hyn o bryd, neu sydd wedi gweithio mewn rôl ddiogelwch, e.e. gwasanaeth heddlu, gwasanaethau arfog neu wasanaeth diogelwch.

Gallech chi ofyn i’r dysgwyr ddefnyddio sefyllfaoedd chwarae rôl i’w galluogi i ymchwilio a chasglu gwybodaeth am gynllunio ymateb effeithiol i fygythiad.

Dylid caniatáu amser i’r dysgwyr ysgrifennu nodiadau a pharatoi ar gyfer Aseiniad 2. (Mae Aseiniad 2 yn cwmpasu Nod dysgu C.)

 © Pearson Education Limited 2022

### Manylion y cysylltiadau ag unedau a chymwysterau BTEC eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu â'r canlynol:

- Uned 3: Materion Byd-eang, y Cyfryngau a'r Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol
- Uned 8: Gofal Gwarchodol
- Uned 15: Pwerau'r Heddlu a'r Gyfraith
- Uned 18: Gweithdrefnau ac Ymarfer Ymchwiliadau Troseddol.

## Adnoddau

Yn ogystal â'r adnoddau a restrir isod, mae cyhoeddwyr yn debygol o gynhyrchu gwerslyfrau a gymeradwywyd gan Pearson sy'n cefnogi'r uned hon o'r BTEC Cenedlaethol. Edrychwch ar wefan Pearson (http://qualifications.pearson.com/endorsed-resources) i gael rhagor o wybodaeth wrth i deitlau gael eu cymeradwyo.

**Gwerslyfrau**

Ronan, K R a Johnston, D M – *Promoting Community Resilience in Disasters* (Springer, 2005) ISBN 9780387238203

Bolz, F et al – *The Counter terrorism Handbook: Tactics, Procedures and Techniques* (CRC Press, 2005) ISBN 978-0849309649

Clarke, R V – *Situational Crime Prevention: Successful Case Studies* (Harrow a Heston, 1997) ISBN 9780911577389

Kozlow, C a Sullivan, J – *Jane's Facility Security Handbook* (Jane's Information Group, 2000) ISBN 9780710622884

**Cyfnodolion**

*Edge*

*Fire*

*Firefighter magazine*

*Info 4 security*

*Navy News*

*Police*

*Prison Service Journal*

*Prison Service News*

*Professional Security Magazine*

*Quest*

*RAF News*

*Soldier*

**Gwefannau**

Mae gan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wefan dda y cewch hyd iddi trwy chwilio ar-lein am '*health and safety executive.gov*'

Cynllunio brys llywodraeth y Deyrnas Unedig
https://www.gov.uk/government/publications/emergency-preparedness

Y Swyddfa Genedlaethol Gwrth-Frawychiaeth https://www.gov.uk/government/organisations/national-counter-terrorismsecurity-office

Gwasanaeth Diogelwch MI5 https://www.mi5.gov.uk/

Y Weinyddiaeth Amddiffyn https://www.gov.uk/government/organisations/ministryof-defence

Sefydliad Cytuniad Gogledd Iwerydd https://www.nato.int/

Sefydliad y Gwasanaethau Unedig Brenhinol https://rusi.org/

Y Cenhedloedd Unedig https://www.un.org/en/


 © Pearson Education Limited 2022